

## **Sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol ar gyfer Grantiau Tai Ffyniant a Datblygu sy'n cyflawni dibenion Grant Cartrefi Gwag Tasglu'r Cymoedd**

Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau ar gyfer cymunedau lleol a'r bobl sy'n byw ynddyn nhw. Mae cynnal y gwaith yma'n golygu bod rhaid i ni gasglu a defnyddio gwybodaeth am y bobl rydyn ni'n darparu gwasanaethau ar eu cyfer nhw a chadw cofnod o'r gwasanaethau yma. Am ein bod ni'n casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol am unigolion, rhaid i ni sicrhau eu bod nhw'n gwybod beth yw ein bwriad o ran defnyddio a rhannu eu gwybodaeth.

Rydyn ni wedi crynhoi yn yr hysbysiad preifatrwydd yma rai o'r ffyrdd allweddol rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol Grantiau Tai Ffyniant a Datblygu sy'n cyflawni dibenion Grant Cartrefi Gwag Tasglu'r Cymoedd Dylech chi ddarllen yr wybodaeth yma yn ogystal â [hysbysiad preifatrwydd corfforaethol y Cyngor](#).

### **1. Pwy ydyn ni, beth rydyn ni'n ei wneud.**

Mae'r Garfan Cartrefi Gwag yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol o fewn Tasglu'r Cymoedd i gyflwyno ceisiadau grant cartrefi gwag.

Mae'r tasglu'n cynnwys Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr, Abertawe, Torfaen, Blaenau Gwent, Caerffili, Castell-nedd a Phort Talbot a Sir Gâr.

Mae'r Cynllun yn cynnig grant i ymgeiswyr adfywio cartrefi gwag fel bod modd eu defnyddio eto. Mae'n cefnogi'r gwaith o adfer cartrefi gwag, helpu i adfywio cymunedau, darparu mwy o ddewis a llety addas i breswylwyr.

### **2. Pa fath o wybodaeth bersonol rydyn ni'n ei chadw ac am bwy?**

Wrth wneud cais am grant cartrefi gwag byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth bersonol i brosesu'r cais. Bydd hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am unrhyw un sy'n byw yn eich cartref sy'n hŷn na 17 oed.

Mae'r mathau o wybodaeth y byddwn ni'n ei chadw yn cynnwys y canlynol;

- Enw a chyfeiriad
- Gwybodaeth gyswllt gan gynnwys rhif ffôn symudol neu rhif ffôn cartref a chyfeiriad e-bost
- Dyddiad geni
- Rhif Yswiriant Gwladol
- Manylion y Cyfrif Banc (ar gyfer talu cymorth grant)
- Tystiolaeth o berchen yr eiddo (gan gynnwys dogfennau Teitl y Gofrestrfa Tir), cyfrifon busnes a manylion Hunanasesu
- Manylion am werth yr eiddo a manylion y morgais
- Gwybodaeth bersonol arall a gyflwynwyd fel tystiolaeth i gefnogi'ch cais am grant

- Manylion unigolion eraill sy'n gysylltiedig â'ch cais, gall hyn gynnwys eich partner a phobl eraill sy'n byw yn eich cartref
- Hawl i gael budd-daliadau a gwybodaeth ategol

Efallai byddwn ni'n derbyn / casglu'r wybodaeth ganlynol gan eraill i gefnogi'ch cais:

- Cadarnhad o Berchenogaeth eich tŷ / eiddo (y tŷ / eiddo rydych chi'n gwneud cais am gymorth grant ar ei gyfer)
- Cadarnhad o faint o amser rydych chi wedi bod yn y tŷ / eiddo
- Cadarnhad o'ch hawl i ostyngiad yn Nhreth y Cyngor
- Cadarnhad eich bod wedi cofrestru i ddweud byddwch chi'n byw yn y tŷ / eiddo
- Cadarnhad o'ch Rhif Yswiriant Gwladol
- Tystiolaeth eich bod yn berchen ar y tŷ / yr eiddo, neu yn denant yn y tŷ / yr eiddo
- Prawf hunaniaeth (er enghraifft, ond heb ei gyfyngu i; pasbort, trwydded yrru, bil cyfleustodau ac ati).

### 3. O ble mae'r gwasanaeth yn cael fy ngwybodaeth?

Mae'r gwasanaeth yn cael eich gwybodaeth o nifer o ffynonellau:

- Chi, yr ymgeisydd, ar ôl i chi gwblhau'r ffurflen gais am grant
- Ymholiadau dros y ffôn, e-bost, llythyr, neu ymholiad ar-lein
- Chwiliad Pridiannau Tir Lleol
- Chwiliadau y Gofrestrfa Tir
- Meysydd gwasanaeth eraill o fewn y Cyngor e.e. Treth y Cyngor, Budd-daliadau Tai
- Gwybodaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol Tasglu'r Cymoedd h.y. Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr, Abertawe, Torfaen, Blaenau Gwent, Caerffili, Castell-nedd a Phorth Talbot a Sir Gâr.

### 4. Beth fyddwn ni'n ei wneud gyda'ch gwybodaeth bersonol?

Er mwyn prosesu'ch cais am grant ac asesu'ch cymhwysedd i dderbyn y cyllid grant, fe wnawn ni'r canlynol:

- Rhoi cyngor cyn i chi gyflwyno cais
- Gwirio gydag adrannau eraill y Cyngor, fel Adran Treth y Cyngor, er mwyn asesu eich cymhwysedd
- asesu a chymeradwyo a gwneud taliadau sy'n ymwneud â'ch cais am Grant Cyfleusterau Anabl Statudol a Chymorth Grant Dewisol
- Galluogi asesu ceisiadau am Grantiau Dewisol mae aelodau o'ch cartref/teulu yn eu gwneud
- I wneud taliad i chi neu'r contractwr o'ch dewis a allai gynnwys, adeiladwr, trydanwr, plymwr, pensaer ac ati mewn perthynas â'ch cais am grant
- Cyhoeddi gyfarwyddyd i gofrestru Pridiant Cyfreithiol mewn perthynas â'ch dyfarniad grant
- Casglu adborth gan gwsmeriaid sy'n ymwneud â cheisiadau am Grantiau

## 5. Beth yw'r sail gyfreithiol o ran defnyddio'r wybodaeth yma?

Gan fod y Garfan Cartrefi Gwag yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i adfer cartrefi gwag, helpu i adfywio cymunedau a darparu rhagor o ddewis a llety addas i breswylwyr byddwn ni'n prosesu eich gwybodaeth yn unol â:

- Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996
- Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio, Adnewyddu Tai yn y Sector Preifat 2002
- Polisi Tai Sector Preifat Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf 2014

## 6. Ydy'r gwasanaeth yn rhannu fy ngwybodaeth bersonol ag unrhyw sefydliad arall?

Bydd angen gwybodaeth ychwanegol amdanoch chi ar y Garfan Cartrefi Gwag er mwyn prosesu'ch cais am grant, er mwyn i ni wneud hynny byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â'r canlynol:

Adrannau eraill y Cyngor:

- Treth y Cyngor
- Adran Budd-daliadau Tai
- Gwasanaethau Cyfreithiol
- Cyllid
- Awdurdodau Lleol Ardal Tasglu'r Cymoedd

Unigolion eraill:

- Datblygwyr, Adeiladwyr, Penseiri
- Eich cynrychiolwyr cyfreithiol
- Eich asiant/cynrychiolydd

## 7. Am faint o amser bydd fy ngwybodaeth yn cael ei chadw?

Byddwn ni dim ond yn cadw eich gwybodaeth bersonol cyhyd ag y bydd arnon ni ei hangen i ddarparu'r gwasanaeth perthnasol ac i ddelio ag unrhyw gwestiynau neu gwynion rydyn ni'n eu derbyn am hyn. Byddwn ni'n gwneud hyn am 10 mlynedd.

## 8. Eich gwybodaeth, eich hawliau

Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn rhoi hawliau pwysig i chi, gan gynnwys yr hawl i gael gweld yr wybodaeth bersonol mae'r gwasanaethau yn ei chadw amdanoch chi.

[Edrychwch ar ragor o wybodaeth am eich hawliau gwybodaeth a sut i'w defnyddio nhw.](#)

## 9. Cysylltwch â ni

Os oes gyda chi unrhyw bryderon neu os ydych chi eisiau rhagor o wybodaeth am sut mae'r gwasanaeth yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â ni gan ddefnyddio un o'r dulliau isod:

E-bost: [www.rctcbc.gov.uk/grantiaucartrefigwag](http://www.rctcbc.gov.uk/grantiaucartrefigwag) [www.rctcbc.gov.uk/emptyhomesgrant](http://www.rctcbc.gov.uk/emptyhomesgrant)

Trwy lythyr: Ffyniant a Datblygu  
Buddsoddiadau a Grantiau Tai  
Tŷ Sardis  
Heol Sardis  
Pontypridd  
CF37 1DU